NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Voretigene neparvovec ar gyfer trin dystroffïau etifeddol y retina a achosir gan fwtadiadau yng ngenyn RPE65

9 Hydref 2019

Mae Voretigene neparvovec (Luxturna) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer dystroffïau etifeddol y retina a gyfryngir gan RPE65. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i drin pobl sydd wedi colli golwg o ganlyniad i ddystroffi etifeddol y retina o fwtadiadau bialelig a gadarnhawyd yng ngenyn RPE65 ac sydd â digon o gelloedd retinol hyfyw.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Fight for Sight, 0207 264 3900
- Retina UK, 01280 821334

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3554-3



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.